Teithio i'r Ysgol

Tasg Arbennig Comisiynydd Plant Cymru: Tetihio i'r Ysgol

Canfyddiadau ac Adroddiad

YMUNWCH Â'R MUDIAD

sustrans

JOIN THE MOVEMENT

Sustrans

Mae Sustrans yn elusen flaengar sy'n galluogi pobl i ddewis teithiau iachach, glanach a rhatach.

Maent yn gweithio gydag ysgolion ar draws Cymru er mwyn hyrwyddo teithio llesol. Mae'r elusen yn cynnig cyngor, adnoddau cwricwlwm a deunyddiau ymarferol er mwyn gweithio gyda phlant ac adnabod newidiadau a all gwella llwybrau o fewn dalgylch eu hysgolion.

Ar ei gwe-fan, mae ganddynt dudalennau yn arbennig ar gyfer pobl ifanc a'r rhai sy'n ymwneud ag addysg. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth drwy ymweld a **www.sustrans.org.uk/cymru/addysg**

Am wybodaeth neu adnoddau er mwyn helpu i gynyddu'r nifer sy'n cerdded neu seiclo i'ch ysgol, cysylltwch â Sustrans ar 02920650602.

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Mae'r adroddiad yma ar gael mewn fformatau eraill drwy roi galwad i ni ar 01792 765600 neu drwy anfon e-bost atom ni yn post@complantcymru.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru

Mae cyfres o gyfreithiau, gan gynnwys Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, sy'n esbonio rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd Plant Cymru. Mae Comisiynydd Plant Cymru am weld Cymru sy'n wlad lle caiff plant a phobl ifanc eu parchu, eu gwerthfawrogi, a lle maen nhw'n cael gwrandawiad a chefnogaeth i fyw bywydau diogel, hapus.

Mae tîm o bobl sy'n gweithio gyda Sally Holland, y Comisiynydd presennol – o swyddfeydd yn Abertawe a Bae Colwyn – i'w helpu i wneud y pethau yma:

cefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu am hawliau plant
gwrando ar blant a phobl ifanc i ddysgu beth sy'n bwysig iddyn nhw
cynghori plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw os ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu troi at neb arall gyda'u problemau
dylanwadu ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan ofalu eu bod nhw'n cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc
codi llais dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig – bod yn bencampwr i blant Cymru.

Mae copïau o'n holl adroddiadau ar gael i'w darllen a'u lawrlwytho o'n gwefan: www.complantcymru.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Rhagair

Yn ystod yr ychydig fisoedd ers i mi gychwyn yn swydd y Comisiynydd Plant rwyf wedi cael cannoedd o sgyrsiau gyda phlant a phobl ifanc o bob oed. Un o'r pethau rydyn ni wedi'i drafod fwya yw'r awydd am chwarae a theithio'n ddiogel yn y gymuned.

Rydw i'n teimlo'n gryf iawn am hyn. Fel rhywun sy'n beicio i'r gwaith bob dydd rwy'n deall pleser bod yn rhydd i fynd ar y beic, ond hefyd yr ofnau oherwydd hewlydd prysur, pethau diflas fel gwydr wedi torri ar y llawr, ac weithiau pobl anghyfeillgar sydd ddim eisiau gadael lle i bobl ar feiciau a sgwteri. Mae plant yn ddefnyddwyr arbennig o'n ffyrdd a'n mannau agored. Allwch chi ddim gyrru os ydych chi'n blentyn, felly os ydych chi am deithio heb oedolyn, mae angen i chi gerdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Efallai byddwch chi'n treulio oriau lawer yn chwarae allan yn eich stryd, mewn parc, neu mewn mannau eraill difyr yn yr ardal lle rydych chi'n byw. O leiaf tan iddyn nhw gyrraedd yr arddegau, mae plant yn gyffredinol yn fyrrach nag oedolion, ac felly'n agosach at y llawr. Mae hynny'n golygu eu bod nhw'n gweld, yn teimlo ac yn arogli pethau yn fwy amlwg yn y strydoedd a'r gymdogaeth. Mae hefyd yn golygu ei bod hi'n anoddach i yrwyr weld plant, felly mae angen i bobl fod yn arbennig o ofalus o'u cwmpas.

Mae'r adroddiad yma'n dangos bod llawer o blant yn defnyddio'u taith i'r ysgol i fod yn gymdeithasol a sgwrsio a chwarae gyda ffrindiau a theulu. Mae llawer yn hoffi cadw'n heini trwy feicio, sgwtio, cerdded neu redeg ar y ffordd, ac maen nhw'n mwynhau gweld y tymhorau'n newid o'r rhew i'r gwres. Wrth gwrs, mae rhai pethau'n llai braf – pethau fel tywydd gwael, ceir cyflym a pharcio diofal.

Fel comisiynydd, un rhan o'm gwaith i yw gwneud yn siŵr bod pob plentyn yng Nghymru yn derbyn ei hawliau, fel maen nhw wedi'u nodi gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae gan blant lawer o hawliau sydd wedi'u cysylltu â theithio ar feic, sgwter neu ar droed i'r ysgol ac o fewn eu cymunedau, sef yr hawl i fod yn ddiogel (erthygl 19), i fod yn iach (erthygl 6), i wneud dewisiadau (erthygl 12), i gwrdd â ffrindiau (erthygl 15), i chwarae (erthygl 31) ac i fynd i'r ysgol (erthygl 28).

Fe wnaeth Sustrans, elusen trafnidiaeth gynaliadwy ein helpu gyda'r arolwg. Maent wedi datblygu llawer o adnoddau er mwyn hyrwyddo teithio llesol. Yn ogystal, maent yn gweithio gydag ysgolion er mwyn helpu plant fod yn iach. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cymorth.

Mae cysylltiad rhwng y gwaith yma a dwy agenda bolisi gyfredol. Un o'r rheiny yw sut mae llwybrau i ysgolion yn benodol yn cael eu hasesu o ran diogelwch. Mae fy swyddfa eisoes wedi gwneud darn o waith gyda phlant a phobl ifanc a fu'n bwydo i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar asesu diogelwch llwybrau i'r ysgol. Y llall yw gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'n bwysig bod y canllawiau sy'n rhan o'r Ddeddf gyda golwg ar geisio barn ein cymunedau ynghylch llwybrau teithio llesol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Mae 78% o blant yn teimlo dylen nhw gael rhoi barn wrth gynllunio llwybrau mwy diogel i'r ysgol. Rydw i'n cytuno. Y newyddion da yw bod yna bethau sy'n gallu cael eu gwneud i sicrhau bod teithio ar feic, ar sgwter neu ar droed i'r ysgol yn fwy diogel ac yn haws. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn pennu bod rhaid i'r awdurdodau lleol ofyn i bawb yn eu hardal ynghylch creu gwell llwybrau teithio ar gyfer beicio neu gerdded.

Rydyn ni i gyd eisiau sicrhau bod plant yn fwy hapus, yn fwy iach ac yn fwy diogel. Rhaid i ni sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan o'r drafodaeth honno, ac rwy'n credu bod yr adroddiad yma'n gychwyn defnyddiol a fydd, gobeithio, yn sbarduno eraill.

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru

Crynodeb gweithredol

Adroddiad Teithio Llesol: pwyntiau'r crynodeb gweithredol

Yr arolwg

- Adroddiad yw hwn ar arolwg o bron 1,000 o blant yng Nghymru, rhwng 5 ac 11 oed yn bennaf, oedd yn rhoi eu barn ar y daith yn ôl ac ymlaen i'r ysgol
- Cynhaliwyd yr arolwg yn nhymor y gwanwyn, 2015, ac roedd yn cynnwys bron holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, er bod cynrychiolaeth gryfach mewn rhai ardaloedd nag eraill.

Sut mae plant yn teithio i'r ysgol?

- Roedd ychydig dros hanner y plant naill ai'n cerdded i'r ysgol (47%) neu'n beicio/ sgwtio (5%). Roedd mwyafrif y gweddill yn teithio i'r ysgol yn y car (43%), gyda chyfran fechan yn unig yn teithio ar y bws (5%)
- Roedd cerdded, beicio a sgwtio i'r ysgol yn llai cyffredin yng nghefn gwlad y canolbarth, lle roedd teithio mewn car neu fws yn fwy cyffredin.

Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws i blant gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol?

- Sylw rhai plant, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, oedd nad oedden nhw'n teimlo bod modd gwneud unrhyw beth i hwyluso pethau, gan eu bod nhw'n byw'n bell o'r ysgol
- Soniodd llawer o blant am ddiogelwch ffyrdd fel rhwystr, gan gynnwys ceir yn goryrru a ffyrdd diogel o groesi ffyrdd
- Ar ben hynny, soniodd llawer o blant am ddiffyg llwybrau i gerdded ar hyd ffyrdd prysur a phrinder llwybrau beicio mewn cyflwr da
- Rhwystrau eraill oedd y tywydd a'r ffaith nad oedd rheseli beiciau'n cael eu darparu yn yr ysgol.

Beth oedd plant yn ei hoffi am gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol?

Roedd mwyafrif sylwadau'r plant ar y mater hwn yn syrthio i bedwar categori:

- Manteision iechyd
- Cael hwyl a chwarae
- Mwynhau'r amgylchedd
- Treulio amser gyda ffrindiau, teulu a phobl eraill

Beth doedd plant ddim yn ei hoffi am gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol?

Roedd sylwadau'r plant ar y mater hwn yn ymwneud â rhai o'r pwyntiau a nodwyd uchod o ran pethau a fyddai'n ei gwneud hi'n haws iddyn nhw gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol. Y prif bynciau oedd

- Traffig a diogelwch ffyrdd
- Diffyg darpariaeth a gwaith cynnal a chadw o ran y pafin a llwybrau (gan gynnwys llwybrau beicio)
- Y tywydd
- Rhiwiau
- Pobl roedden nhw'n eu gweld ar y ffordd
- Baw cŵn

Sut mae ysgolion yn mynd ati ar hyn o bryd i helpu plant i gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol?

- Y pethau y cyfeiriodd plant atynt amlaf mewn ymateb i'r cwestiwn yma oedd storio beiciau a sgwteri (10%); mentrau fel 'Bike It' (9%), gwersi a phrofion beicio (7%), 'The Big Pedal' (6%) a 'Kerbcraft' a sgyrsiau diogelwch eraill (6%); pobl lolipop (8%) a dulliau o reoli parcio (5%)

Fyddai plant yn hoffi cael mwy o help i gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol?

- Dywedodd bron hanner (48%) y plant yr hoffen nhw gael mwy o help gan yr ysgol i fedru cerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol, ac atebodd 31% arall 'efallai'.

Ddylai plant gael mwy o gyfle i roi barn ynghylch sut mae gwneud y strydoedd yn fwy diogel i gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol?

- Roedd dros dri chwarter y plant (78%) yn teimlo y dylai plant gael rhoi barn ar sut mae gwneud y llwybrau i'r ysgol yn fwy diogel ar gyfer cerdded, beicio neu sgwtio, a dim ond 7% oedd yn teimlo na ddylai hynny ddigwydd.

Fyddai plant yn hoffi rhannu eu barn am deithio llesol i'r ysgol?

- Dywedodd mwyafrif (58%) o'r plant yr hoffen nhw rannu eu barn am lwybrau cerdded a beicio, ac roedd 30% arall yn meddwl y bydden nhw o bosib yn hoffi gwneud hynny.

Sut byddai plant yn hoffi rhoi eu barn?

- Rhoddwyd pum opsiwn i'r plant. Yr un mwyaf poblogaidd oedd llanw arolwg ar y rhyngrwyd (39%), ac yn ail roedd gweithgaredd yn y dosbarth gydag athro (32%).

Cyflwyniad i'r Dasg Teithio i'r Ysgol

Adroddiad yw hwn ar ganfyddiadau arolwg o blant yng Nghymru oedd yn casglu eu barn am deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Cynhaliwyd yr arolwg gyda bron 1,000 o blant, rhwng 5 ac 11 oed gan mwyaf, ym mron holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru yn nhymor y gwanwyn, 2015.

Mae dwy adran i'r adroddiad. Mae'r adran gyntaf yn cyflwyno cyd-destun a nodau'r ymchwil ac yn darparu gwybodaeth ynghylch sut cafodd yr arolwg ei gynnal a sut dadansoddwyd y data. Mae'r ail adran yn crynhoi'r prif ganfyddiadau ystadegol a thematig.

Y Cyd-destun

Diffiniad o Deithio Llesol

2.5 Ystyr "Teithio llesol" yw cerdded a beicio yn hytrach na defnyddio cludiant modur ar gyfer teithiau pob dydd. Ystyr "taith teithio llesol" yw taith a wneir i weithle neu sefydliad addysgol neu oddi yno, neu er mwyn cyrchu gwasanaethau neu gyfleusterau iechyd, hamdden neu eraill."

2.12 Nid yw micro-sgwteri, sglefrolwyr, sglefrfyrddau a dulliau teithio eraill tebyg wedi'u cynnwys yn y diffiniad statudol o deithio llesol. Fodd bynnag, mae'r dulliau teithio hyn yn boblogaidd ymhlith grwpiau penodol. Er enghraifft, mae micro-sgwteri yn boblogaidd ar gyfer teithio i'r ysgol ymhlith plant iau. Ni ddylid atal na rhwystro defnydd ohonynt pan fyddant yn darparu dull cludiant deniadol."

Canllawiau Statudol ar gyfer Cyflawni Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Ym marn Comisiynydd Plant Cymru, mae'n bwysig bod plant yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel wrth gerdded, beicio, a sgwtio o amgylch y mannau lle maen nhw'n byw, yn dysgu ac yn chwarae. Rydyn ni'n gwybod, os bydd plant yn cerdded, yn beicio neu'n sgwtio i'r ysgol, eu bod yn iachach ac yn gallu canolbwyntio'n well yn y dosbarth (www.sustrans.org.uk/cymru/addysg). Mae peidio â bod mewn ceir yn rhoi mwy o gyfle i blant chwarae, cwrdd â ffrindiau a meithrin eu hymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd, yn barod ar gyfer teithio ar eu pennau eu hunain pan fyddan nhw'n hŷn.

Ar 4 Tachwedd 2013, daeth Cymru'n arweinydd byd-eang ym maes cerdded a beicio wrth i Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ddod i rym yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i greu gweledigaeth 15 mlynedd ar gyfer rhwydwaith teithio llesol, ac yna gweithio i'w chyflawni, gan ei hadolygu a'i diwygio bob tair blynedd.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cynnwys canllawiau dylunio newydd, a luniwyd gyda chyfarwyddyd arbenigwyr, sy'n golygu bod rhaid i lwybrau fodloni'r safonau uchaf. Mae'r arweiniad a roddir o dan y ddeddfwriaeth hefyd yn egluro'r disgwyliadau sydd ar awdurdodau lleol i ymgysylltu â'u cymunedau i ddatblygu'r llwybrau, ac mae hynny'n cynnwys galluogi cyfranogiad plant a phobl ifanc.

Gallai plant a phobl elwa'n aruthrol o'r ddeddfwriaeth, gan y dylai olygu bod y rhwydweithiau teithio llesol yn cysylltu'r amwynderau y ceir mynediad iddynt, er enghraifft mannau chwarae ac ysgolion. Bydd diogelwch yn amlwg yn ofyniad hollbwysig wrth ddatblygu'r llwybrau hyn, fel yn achos asesiadau cyfredol o lwybrau cerdded i'r ysgol. Ym mis Ionawr 2016, bydd awdurdodau lleol ledled Cymru yn cyflwyno'u Mapiau o'r Llwybrau Presennol – sy'n cwmpasu'r llwybrau sydd eisoes yn bodoli – i Lywodraeth Cymru. Yna bydd y broses o fapio rhwydwaith y dyfodol yn cychwyn, a chyflwynir y cynlluniau hynny yn 2017.

Gwaith blaenorol gan Gomisiynydd Plant Cymru i sicrhau llais plant ar ddiogelwch llwybrau a dylanwadu ar ganllawiau Llywodraeth Cymru.

Ym mis Ionawr 2014, gosododd y Comisiynydd 'Dasg Arbennig' ar gyfer yr *Ysgolion Llysgenhadon Gwych sy'n rhan o Gynllun Llysgenhadon Gwych y Comisiynydd. Roedd y 'Dasg Arbennig' ar ffurf arolwg.

*** Cynllun y Llysgenhadon Gwych yng Nghymru.**

Menter yw'r cynllun hwn, a arweinir gan Gomisiynydd Plant Cymru, sy'n grymuso disgyblion i fod yn llysgenhadon dros y Comisiynydd yn eu hysgolion. Mae dau ddisgybl, fel arfer o Flwyddyn 5/6, a etholir gan eu cyfoedion, yn cyflawni rôl arweiniol yn y gwaith o hyrwyddo Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a rôl Comisiynydd Plant Cymru ymhlith eraill yn yr ysgol. Mae hefyd yn ofynnol i Lysgenhadon gwblhau tasgau arbennig, gan ganfasio barn eu cyfoedion ar ystod eang o faterion. Yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth a Mai 2015, roedd 200 o ysgolion wedi ymuno â'r cynllun.

www.llysgenhadongwych.org.uk

Roedd gwybodaeth am y dasg ar gael ar Wefan y Llysgenhadon Gwych, a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddi trwy e-bost uniongyrchol oedd yn cynnwys neges fideo gan y Comisiynydd i athrawon cyswllt y Llysgenhadon yn yr Ysgolion, a rhwydwaith o weithwyr proffesiynol.

Fe wnaethon ni ofyn amrywiaeth o gwestiynau er mwyn cael gwybod pwy oedd yn cerdded i'r ysgol, faint oedd eu hoed, ac yn fwyaf pwysig beth oedd yn gwneud iddyn nhw deimlo'n anniogel ar y ffordd i'r ysgol. Cafwyd dros 540 o ymatebion unigol o ysgolion ledled Cymru.

Canlyniadau

Bu'r wybodaeth a gasglwyd gan y plant yn cyfrannu'n uniongyrchol at lywio Canllawiau Llywodraeth Cymru ar asesu risg llwybrau diogel i'r ysgol. Cafodd barn y plant ei hymgorffori hefyd i'r Canllawiau Gweithredol diwygiedig ar Deithio gan Ddysgwyr.

Tasg Teithio i'r Ysgol

Gosod Tasg Arbennig Teithio Llesol ym mis Ionawr 2015, mewn cydweithrediad â Sustrans Cymru.

Nod y dasg hon ynghylch 'Teithio i'r Ysgol' oedd hybu teithio llesol ac annog mwy o deithio i'r ysgol ar droed, ar feic, neu ar sgwter. Mae cefnogi plant i deithio'n llesol yn eu cymunedau yn cynnal lles pennaf y plentyn (Erthygl 3) gan ei fod yn eu helpu i gadw'n iach (Erthygl 6) ac yn sicrhau bod ganddynt fwy o fynediad i gyfleoedd chwarae a hamdden (Erthygl 31).

Nodau'r Arolwg

Yng ngoleuni'r cyd-destun uchod, dyma oedd nodau'r astudiaeth gyfredol:

Nodau:

- Hybu Teithio Llesol i ysgolion yng Nghymru – hybu teithiau diogel ar droed, ar feic ac ar sgwter.
- Darganfod sut byddai plant yn hoffi bod yn rhan o fapio llwybrau integredig a datblygu'r rhwydwaith yn y dyfodol.
- Rhannu gwybodaeth i gefnogi ysgolion yng Nghymru i deithio'n llesol.
- Rhannu gwybodaeth am CCUHP a gwaith Comisiynydd Plant Cymru.

Canlyniadau a Ragwelir

Rwy'n mawr obeithio y bydd y prosiect hwn yn dylanwadu ar sut bydd awdurdodau lleol yn rhoi'r canllawiau technegol ar waith o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae anghenion Plant a Phobl Ifanc weithiau'n wahanol i anghenion oedolion. Yn aml mae gan blant a phobl ifanc bersbectif unigryw a syniadau creadigol ar gyfer mynd i'r afael â heriau pob dydd.

Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd y canfyddiadau'n hoelio meddyliau'r rhai sy'n gyfrifol am asesu llwybrau diogel i'r ysgol, ac y byddant yn rhoi sylw gofalus i bob agwedd ar ddiogelwch plant wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y Canllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr.

Yr holiadur

Cafodd yr holiadur ei lenwi gan y plant eu hunain ar gyfrifiadur. Roedd yn cynnwys 12 cwestiwn.

Roedd y ddau gwestiwn cyntaf yn holi am ardal yr awdurdod lleol ac oedran y plentyn.

Roedd y cwestiynau eraill fel a ganlyn:

Cwestiwn	Opsiynau ymateb
Sut wyt ti'n cyrraedd yr ysgol?	Bws, Car, Beicio neu sgwtio, Cerdded, Arall
Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws i ti gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol?	Penagored
Os wyt ti wedi cerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol, beth yw dy hoff ran o'r daith a pham?	Penagored
Os wyt ti'n cerdded, yn beicio neu'n sgwtio i'r ysgol, pa ran o'r daith dwyt ti ddim yn ei hoffi a pham?	Penagored
Beth mae dy ysgol di'n ei wneud i helpu disgyblion i gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol yn amlach?	Penagored
Fyddet ti'n hoffi cael mwy o help yn yr ysgol er mwyn i ti allu cerdded, beicio neu sgwtio'n fwy aml?	Na, Falle, Byddwn
Wyt ti'n meddwl dylai'r plant yn dy ysgol di gael rhoi eu barn ar wneud y strydoedd yn fwy diogel i chi gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol?	Na, Falle, Ydw
Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn golygu dy fod ti'n gallu rhannu dy farn gyda'r bobl sy'n cynllunio llwybrau cerdded a beicio yn dy ardal. Fyddet ti'n hoffi gwneud hynny?	Na, Falle, Byddwn
Sut byddet ti'n hoffi rhoi dy farn ar y llwybrau cerdded a beicio o amgylch dy ysgol?	Llanw arolwg ar y rhyngrwyd Gwneud gweithgaredd dosbarth gydag athro Rhoi dy farn i rywun wyneb yn wyneb Gwneud gweithgaredd gwaith cartref Arall
Os 'Arall' oedd dy ateb, allet ti ddweud wrthyn ni sut byddet ti'n hoffi rhoi dy farn?	Penagored

Cynnal yr arolwg

Roedd yr arolwg yn fyw yn ystod Chwefror a Mawrth 2015. Roedd gwybodaeth am y dasg ar gael ar Wefan y Llysgenhadon Gwych a Gwefan Sustrans Cymru, a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddi trwy e-bost uniongyrchol ac ar twitter, oedd yn cynnwys neges fideo gan y Comisiynydd Plant i Athrawon Cyswllt ein Llysgenhadon yn yr Ysgolion a rhwydwaith o weithwyr proffesiynol. Bu Swyddogion 'Bike It' ym mhob AALl yn rhannu'r dolenni i'r arolwg gydag ysgolion.

Sampl yr arolwg

Cyflawnwyd sampl o 953 o blant yn yr arolwg.

Oedran

Roedd mwyafrif y plant yn yr arolwg rhwng 8 a 10 oed. Roedd tua 17% o dan 9 oed, ac roedd 15% yn 11 oed neu'n hŷn. Roedd oed 14 o blant yn anhysbys, ac maen nhw heb eu cynnwys yn y canrannau uchod nac yn y siart isod.



Ffigur 1: Oed y plant yn y sampl

Iaith

Bu ychydig dros bumed ran (21%) o'r plant yn cwblhau'r arolwg yn Gymraeg, gyda'r gweddill (79%) yn ei gwblhau yn Saesneg.

Awdurdod lleol

Cwblhawyd yr arolwg gan blant o bob awdurdod lleol yng Nghymru heblaw un (Merthyr Tydfil) (Ffigur 2). Cafwyd cryn amrywiaeth o ran cyfraddau cyfranogiad ar draws awdurdodau lleol, gyda'r niferoedd uchaf yn Abertawe, Gwynedd a Phen-y-bont ar Ogwr. Nid yw Ffigur 2 yn cynnwys 13 o blant nad oedd ardal eu hawdurdod lleol yn hysbys.



Ffigur 2: Nifer y plant o bob awdurdod lleol a fu'n cymryd rhan

Rhanbarth

Gellir grwpio'r data awdurdodau lleol yn bedwar rhanbarth daearyddol cyffredinol, fel y dangosir yn Ffigur 3. Mae modd gweld bod cynrychiolaeth dda o bob un o'r pedwar rhanbarth. Roedd cyfran y plant o bob rhanbarth yn yr arolwg yn cyfateb yn fras i gyfrannau'r plant yn y boblogaeth gyfan.



Ffigur 3: Nifer y plant a fu'n cymryd rhan yn ôl rhanbarth daearyddol

Macro-ranbarth

Gellir grwpio'r awdurdodau lleol hefyd yn ôl macro-ranbarth – ar sail y math o ardal – fel y dangosir yn Ffigur 4. Roedd dosbarthiad da o ran cyfranogiad hefyd ar draws y pedwar macro-ranbarth. O'i gymharu â'r boblogaeth blant yn gyffredinol, roedd gorgynrychiolaeth ymhlith plant ardaloedd Gwledig y Gogledd a thangynrychiolaeth ymhlith plant yn yr ardaloedd Metropolitan a'r Cymoedd.



Ffigur 4: Nifer y plant a fu'n cymryd rhan yn ôl macro-ranbarth

Dadansoddi'r data a chanlyniadau

Trosglwyddwyd y data i gronfa ddata Access i'w lanhau a'i ddadansoddi. Mae'r holl ystadegau a gyflwynir yn yr adroddiad wedi'u seilio ar ddata heb ei bwysoli. Dylid cadw mewn cof fod dosbarthiad oed ac ardal yr arolwg yn anwastad, felly ni ddylid barnu bod y canfyddiadau'n rhai cynrychioliadol ar gyfer Cymru gyfan. Lle defnyddir dyfyniadau, maent wedi'u dethol i ddarlunio pwyntiau allweddol. Ceisiwyd adlewyrchu natur y sylwadau Saesneg yn y cyfieithiad Cymraeg.

Canfyddiadau

Sut wyt ti'n cyrraedd yr ysgol?

Ceir dadansoddiad cyffredinol o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn Ffigur 5. Roedd ychydig dros hanner y plant naill ai'n cerdded i'r ysgol (47%) neu'n beicio/sgwtio (5%). Roedd mwyafrif y gweddill yn teithio i'r ysgol yn y car (43%) gyda chyfran fechan yn unig yn teithio ar y bws (5%)



Ffigur 5: 'Sut wyt ti'n cyrraedd yr ysgol?'

Cymharol ychydig o amrywiaeth oedd yn ôl oed o ran sut mae plant yn teithio i'r ysgol. Roedd peth amrywiaeth yn ôl rhanbarth, ond mae hynny i'w weld yn gliriach wrth rannu'r sampl yn facro-ranbarthau, fel y gwelir yn Ffigur 6. Roedd cerdded, beicio a sgwtio i'r ysgol yn llai cyffredin yn ardaloedd Cefn Gwlad y Canolbarth, ac roedd teithio yn y car ac ar y bws yn fwy cyffredin nag yn y tri math arall o ardaloedd (mae trafodaeth bellach ar hyn yn yr adran nesaf).



Ffigur 6: 'Sut wyt ti'n cyrraedd yr ysgol?' yn ôl macro-ranbarth

Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws i ti gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol?

Yn amlwg, mae dehongliadau gwahanol yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn gan blant sydd fel arfer yn teithio mewn car neu fws a'r rhai sydd fel arfer yn cerdded, yn beicio neu'n sgwtio.

Plant sydd fel arfer yn teithio mewn car neu ar fws

O blith y grŵp yma o blant dywedodd tua chwarter eu bod yn rhy bell o'r ysgol i wneud cerdded, beicio neu sgwtio yn ymarferol:

> **Dim byd. Rydw i'n byw 12 milltir i ffwrdd.**
> 6 oed, Gwynedd

> **Symud tŷ, er mwyn i mi fedru cerdded neu feicio neu sgwtio.**
> 11 oed, Sir Fynwy

Yng nghyswllt yr ystadegau a gyflwynwyd yn Ffigur 6 uchod, roedd y mater hwn amlycaf yn ardaloedd Cefn Gwlad y Canolbarth (roedd bron 40% o'r plant yn teithio mewn car neu fws) ac yn lleiaf amlwg yn yr ardaloedd Metropolitan (15%).

Mater yr un mor gyffredin (y cyfeiriwyd ato hefyd gan ryw chwarter o'r plant oedd yn teithio mewn car neu fws) oedd diogelwch ffyrdd:

> **Lonydd mwy diogel, gan fod yr Ysgol yn y wlad, lle mae lonydd cul**
> 10 oed, Conwy

> **Reidio gyda ffrind, a cheir ddim yn mynd yn rhy gyflym wrth i ni geisio croesi ffyrdd**
> 11 oed, Rhondda Cynon Taf

Yn ogystal â sylwadau oedd i'w gweld yn cyfeirio'n benodol at ddiogelwch ffyrdd, cyfeiriodd tua 70 o blant eraill at ddiffyg llwybrau addas fel rhwystr oedd yn eu hatal rhag cerdded, beicio neu sgwtio. Mewn rhai achosion, dywedodd y plant nad oedd llwybr o gwbl, ac mewn achosion eraill roedd y sylwadau'n ymwneud â gwella ansawdd y llwybrau:

> **Mae'r ysgol ar ffordd b, a does dim llwybr troed ar rannau o'r ffordd**
> Oed anhysbys, Ynys Môn

> **Pafin gwell, achos maen nhw'n fwmpiog**
> 10 oed, Caerdydd

> **Llwybrau beicio go iawn, a dim rhagor o fwmpiau.**
> 9 oed, Pen-y-bont

Ar wahân i'r tri phrif reswm yma, soniodd y plant hefyd am amrywiaeth o ffactorau eraill, oedd yn cynnwys trefniadau gwaith rhieni, y tywydd, a'r ffaith nad oedd ganddyn nhw feic neu sgwter:

> **Bod mam neu dad yn gweithio llai, achos mae rhaid i fi fynd i'r clwb brecwast**
> 8 oed, Caerdydd

> **Bod gan bob un ohonon ni feic neu sgwter**
> 5 oed, Torfaen

Plant oedd fel arfer yn cerdded, yn beicio neu'n sgwtio

Roedd pryderon y plant oedd fel arfer yn cerdded, yn beicio neu'n sgwtio i'r ysgol yn debyg i'r rhai a ddisgrifiwyd uchod, ac eithrio mater y pellter. Y broblem fwyaf cyffredin oedd diogelwch ffyrdd, y soniodd dros draean o'r grŵp yma o blant amdano.

> **Pobl yn stopio mynd yn rhy gyflym**
> 10 oed, Abertawe

> **Byddwn i'n trefnu lôn arbennig ar gyfer beiciau a sgwteri, fel bod e'n fwy diogel**
> 9 oed, Caerdydd

> **Byddai'n dda tase na arwydd ildio wrth y ffordd neu wrth ysgol**
> 10 oed, Bro Morgannwg

Eto, yn ogystal â chyfeirio'n benodol at faterion diogelwch, soniodd llawer o blant am ansawdd gwael y pafin, y llwybrau troed a'r llwybrau beicio, neu'r ffaith nad oeddent yn bodoli o gwbl:

> **Llwybrau mwy gwastad i feiciau a sgwteri ac ar gyfer pobl sy'n cerdded**
> 8 oed, Pen-y-bont

> **Mae plant yn treio sgwtio, beicio a cherdded, felly mae eisiau llwybr i ni gerdded**
> 10 oed, Pen-y-bont

Yn olaf, soniodd y plant oedd yn cerdded, yn beicio neu'n sgwtio i'r ysgol hefyd am ddarparu rheseli beiciau, y tywydd, a gallu codi'n hwyrach fel pethau a fyddai'n gwella eu taith i'r ysgol:

> **Rhywle diogel i roi'r beic neu'r sgwter.**
> 10 oed, Rhondda Cynon Taf

> **Taswn i'n gallu codi'n hwyrach**
> 8 oed, Sir Fynwy

Os wyt ti wedi cerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol, beth yw dy hoff ran o'r daith a pham?

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y plant, ychydig o dan 500 ohonyn nhw, a ddywedodd eu bod fel arfer yn cerdded, yn beicio neu'n sgwtio i'r ysgol. Bu'r plant oedd yn teithio mewn car neu fws hefyd yn ateb y cwestiwn hwn yn aml, ond mewn llawer o achosion, ymddangosai fod eu hatebion yn ymwneud â'r dulliau cludiant hynny, neu eu bod yn ddamcaniaethol – beth roedden nhw'n meddwl bydden nhw'n ei hoffi tasen nhw'n cerdded, yn beicio neu'n sgwtio.

Gall sylwadau'r plant gael eu rhannu'n fras i bum categori – iechyd, chwarae, amgylcheddau, perthynas ag eraill a sylwadau eraill.

Iechyd

Soniodd rhyw un o bob deg o'r plant am fanteision iechyd cerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol:

> **Cerdded i'r ysgol achos bod e'n gwneud chi'n gryf**
> 10 oed, Gwynedd

> **Dwi'n hoffi beicio achos mae'n hwyl ac yn cadw fi'n iach**
> 8 oed, Ynys Môn

Roedd hefyd yn gyffredin i blant sôn am 'awyr iach' fel eu hoff ran o'r daith.

> **Dwi'n joio cael awyr iach a dwi'n gallu mynd yn gyflym ar fy sgwter**
> 9 oed, Pen-y-bont

Chwarae

Dywedodd rhyw 30 o blant mai eu hoff ran o'r daith oedd cael 'hwyl' a soniodd eraill am themâu cysylltiedig mwy penodol:

> **Fy hoff ran yw rasio yn erbyn fy mrawd.**
> 8 oed, Caerdydd

> **Neidio yn y pyllau – mae'n braf!**
> 5 oed, Torfaen

> **PAN FYDDA I'N CANU 'MI WELAIS JAC Y DO'**
> 4 oed, Gwynedd

Ar ben hynny soniodd rhyw 20 o blant yn benodol am fwynhau mynd yn gyflym (fel arfer i lawr rhiw)

> **Pan fydda i'n reidio lawr y rhiw, achos wi'n mynd yn gyflym.**
> 8 oed, Pen-y-bont

Amgylcheddau

Yn gysylltiedig â'r pwynt blaenorol, cyfeiriodd tua 50 o blant at y rhiwiau (fel arfer mynd lawr rhiw) fel eu hoff ran o'r daith:

> **Rhedeg lawr y rhiw**
> 9 oed, Caerffili

Soniwyd am sawl agwedd arall ar yr amgylchedd ffisegol, gan gynnwys parciau, mannau tawel ymhell o'r traffig, pontydd, caeau a'r môr.

> **Mynd heibio'r parc achos wi'n dwlu edrych ar y coed.**
> 9 oed, Abertawe

> **Chwifio ar yrrwr y trên pan fydda i'n croesi'r bont**
> 6 oed, Caerffili

Yn ogystal â'r agweddau penodol hyn ar yr amgylchedd, gwnaeth llawer o blant (tua 40) sylw ynghylch dod i gysylltiad â byd natur fel eu hoff ran o'r daith:

> **Yr awyr iach a'r adar yn canu, mae'n clirio fy meddwl cyn diwrnod yn yr ysgol**
> 10 oed, Rhondda Cynon Taf

> **Rydyn ni'n cerdded bob dydd ac yn gweld newid y tymhorau, yn y coed, ac yn clywed yr adar**
> 10 oed, Ynys Môn

> **Dwi'n cael cerdded trwy'r parc lleol sy'n hardd pan fydd hi'n rhewllyd**
> 11 oed, Sir Benfro

> **Dwi'n mwynhau'r awel yn sblasho yn fy wyneb, mae'n deffro fi ychydig bach.**
> 10 oed, Pen-y-bont

Perthnasoedd

Roedd perthynas ag eraill yn thema bwysig, y soniodd tua un o bob pum plentyn amdani. Y pwnc mwyaf cyffredin (tua 75 o sylwadau) oedd gweld ffrindiau:

> **Mynd gyda ffrindiau, achos wi'n hoff iawn o fy ffrindiau**
> 9 oed, Pen-y-bont

> **Gweld fy ffrindiau ar y ffordd i'r ysgol, fel bod ni'n gallu sgwrsio cyn mynd i'r ysgol**
> 9 oed, Abertawe

Soniodd rhai plant hefyd am fwynhau bod gyda'u rhieni ac aelodau eraill o'r teulu

> **Bod allan yn yr awyr iach a sgwrsio da mam a'm chwiorydd**
> 7 oed, Rhondda Cynon Taf

> **Gweld fy hen dad-cu**
> 11 oed, Blaenau Gwent

A soniodd rhai plant am bobl eraill yn y gymuned.

Sylwadau eraill

Soniodd rhai plant yn syml mai beicio, sgwtio neu gerdded oedd eu hoff ran o'r daith; ac roedd sawl thema arall yn ymddangos yn gyson, gan gynnwys cyrraedd yr ysgol, diogelwch a'r tywydd

> **Pan fydda i'n cyrraedd gatiau'r ysgol achos mae fy ffrindiau bob amser yn aros**
> 11 oed, Sir Benfro

> **Cwrdd â'm ffrindiau achos mae'n gwneud i fi deimlo'n fwy diogel**
> 10 oed, Pen-y-bont

> **Pan fydd yr haul yn disgleirio**
> 8 oed, Pen-y-bont

Dim ond nifer bach o blant (llai na deg) ddywedodd nad oedden nhw'n hoffi dim am y daith i'r ysgol.

Os wyt ti'n cerdded, yn beicio neu'n sgwtio i'r ysgol, pa ran o'r daith dwyt ti ddim yn hoffi a pham?

Eto, mae'r adran hon yn ystyried ymatebion dim ond gan y plant oedd yn dweud eu bod fel arfer yn cerdded, yn beicio neu'n sgwtio i'r ysgol.

Dywedodd rhyw 40 o blant eu bod nhw'n hoffi popeth am y daith.

> **Mae hwnna'n un anodd, does dim byd dwy ddim yn hoffi**
> 5 oed, Castell-nedd Port Talbot

O'r gweddill, roedd saith thema allweddol (y soniodd 5 neu fwy o blant amdanyn nhw).

Traffig

Dyma oedd y pwnc mwyaf cyffredin o bell ffordd; soniodd dros 100 o blant amdano, ac roedd hynny'n cynnwys sylwadau am geir yn gyrru'n rhy gyflym, ddim yn stopio, yn parcio ar y pafin, sŵn ac arogl y traffig, ac anawsterau wrth groesi ffyrdd:

> **Y ffordd mae rhaid i ni groesi gyda'r ceir cyflym**
> 8 oed, Gwynedd

> **Y ffordd beryglus trwy'r maes parcio**
> 9 oed, Caerdydd

> **Pan fydda i'n croesi'r ffordd, dyw'r ceir ddim yn stopio, ac rydw i yng nghanol y ffordd**
> 10 oed, Pen-y-bont

> **Arogli'r ceir yn mynd heibio achos bod nhw'n drewi**
> 11 oed, Abertawe

> **Os yw ceir wedi parcio ar y pafin a does dim lle i basio**
> 6 oed, Gwynedd

> **Hewlydd prysur heb rywun i helpu chi i groesi**
> 7 oed, Bro Morgannwg

> **Mae un rhan yn beryglus iawn oherwydd bod y ceir yn rhedeg fel bwledi**
> 10 oed, Rhondda Cynon Taf

Y pafin a llwybrau

Fel sydd eisoes wedi cael ei drafod mewn adrannau blaenorol, dywedodd rhai plant nad oedd pafin na llwybrau ar gyfer rhan o'u taith, a soniodd eraill am eu hansawdd gwael:

> **Syrthio oddi ar y beic oherwydd bod y llwybr mor lwmpiog a bwmpiog**
> 9 oed, Pen-y-bont

Y tywydd

Cyfeiriodd rhyw 30 o blant at y tywydd – y glaw yn bennaf:

> **Mynd i fyny'r rhiw a phan fydd hi'n glawio**
> 9 oed, Caerffili

Rhiwiau

Soniodd rhyw 30 o blant am y rhiwiau yn ogystal – fel arfer gorfod dringo:

> **Cerdded i fyny 4 rhiw**
> 10 oed, Abertawe

Teimlo'n flinedig

Dywedodd rhyw 20 o blant eu bod nhw'n teimlo'n flinedig neu'n gwynegu ar eu taith. Weithiau roedd hynny'n gysylltiedig â dringo rhiw, felly mae'r sylwadau yma'n gorgyffwrdd â'r categori blaenorol:

> **Dydw i ddim yn hoffi dringo rhiw achos mae'n gwneud fi'n flinedig**
> 11 oed, Abertawe

> **Mae'n gwneud i nghoesau i frifo.**
> 7 oed, Sir Ddinbych

Pobl

Cafwyd nifer bach o sylwadau negyddol am bobl, gan gynnwys bod gormod o bobl yn y ffordd, a rhai pryderon am blant hŷn:

> **Pan fydda i'n cerdded i'r ysgol mae pobl yn eu harddegau yn rhegi o mlaen i a'r tu ôl i fi**
> 10 oed, Rhondda Cynon Taf

Baw cŵn

Yn olaf, soniodd mwy na 10 plentyn mai baw cŵn ar y pafin oedd y peth doedden nhw ddim yn ei hoffi:

> **Baw cŵn ar y pafin achos gallai plant sefyll ynddo fe**
> 9 oed, Rhondda Cynon Taf

Beth mae dy ysgol di'n ei wneud i helpu disgyblion i gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol yn amlach?

Cafwyd ystod eang o ymatebion i'r cwestiwn penagored hwn. Dywedodd dros 100 o blant nad oedd eu hysgol yn gwneud dim yn hyn o beth.

O'r ymatebion eraill, mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys pob ateb a roddwyd gan fwy nag 1% o'r plant.

Storio beiciau/sgwteri	10%
The Big Pedal	6%
Bike It	9%
Gwersi/profion beicio	7%
Kerbcraft a sgyrsiau diogelwch eraill	6%
Cystadlaethau a gweithgareddau	4%
Systemau pwyntiau mewn ysgolion a chymhellion eraill	3%
Mentrau cerdded i'r ysgol	4%
Bws cerdded	2%
Person lolipop	8%
Mesurau eraill ar gyfer croesi'r ffordd	1%
Mesurau a dulliau rheoli parcio	5%
Creu llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr	1%

Fyddet ti'n hoffi cael mwy o help yn yr ysgol er mwyn i ti allu cerdded, beicio neu sgwtio'n amlach?

Dywedodd bron hanner (48%) y plant y bydden nhw'n hoffi cael mwy o help yn yr ysgol er mwyn cerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol.



Ffigur 7: Fyddet ti'n hoffi cael mwy o help yn yr ysgol er mwyn i ti allu cerdded, beicio neu sgwtio'n amlach?

Wyt ti'n meddwl dylai'r plant yn dy ysgol di gael rhoi eu barn ar wneud y strydoedd yn fwy diogel i chi gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol?

Roedd dros dri chwarter y plant (78%) yn teimlo y dylai plant gael rhoi barn ar wneud y strydoedd yn fwy diogel ar gyfer cerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol, a dim ond 7% oedd ddim yn meddwl hynny.



Ffigur 8: Wyt ti'n meddwl y dylai'r plant yn dy ysgol di gael rhoi barn ar wneud y strydoedd yn fwy diogel i chi gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol?

Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn golygu dy fod ti'n gallu rhannu dy farn gyda'r bobl sy'n cynllunio llwybrau cerdded a beicio yn dy ardal. Fyddet ti'n hoffi gwneud hynny?

Mewn ymateb i'r cwestiwn uchod ynghylch rhoi barn ar lwybrau cerdded a beicio, dywedodd mwyafrif (58%) o'r plant y bydden nhw'n hoffi gwneud hynny, ac roedd 30% yn meddwl y bydden nhw am wneud hynny o bosib.



Ffigur 9: Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn golygu dy fod ti'n gallu rhannu dy farn gyda'r bobl sy'n cynllunio llwybrau cerdded a beicio yn dy ardal. Fyddet ti'n hoffi gwneud hynny?

Sut byddet ti'n hoffi rhoi dy farn ar y llwybrau cerdded a beicio o amgylch dy ysgol?

Yn olaf, gofynnwyd i'r plant sut bydden nhw'n hoffi rhoi eu barn ar y llwybrau cerdded a beicio o amgylch eu hysgol. Roedd yr holiadur yn cynnig pum dewis o ran ymateb. Dangosir crynodeb o'r ymatebion gan blant oedd wedi ateb 'Byddwn' neu 'Falle' i'r cwestiwn blaenorol yn Ffigur 10. Yr opsiwn mwyaf poblogaidd oedd llenwi arolwg ar y rhyngrwyd (39%), gyda gweithgaredd yn y dosbarth gydag athro yn dilyn (32%). Defnyddiwyd cwestiwn ymateb penagored i ofyn am ragor o fanylion gan blant oedd wedi ateb 'Arall'. Fodd bynnag, awgrymodd llawer o'r plant hyn sut gallai pethau gael eu gwella, yn hytrach na dweud sut bydden nhw'n hoffi rhoi eu barn, felly nid oedd themâu ychwanegol clir yma.



Ffigur 10: Sut byddai plant yn hoffi lleisio barn?

0808 801 1000 / 80800*
post@complantcymru.org.uk

* Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)

@complantcymru
www.complantcymru.org.uk

Ysgrifennwch:
Comisiynydd Plant Cymru
Rhadbost RRGL XLYC BHGC
Abertawe SA7 9FS